



ASTUDIAETH ACHOS:

Arloesi Integredig ar gyfer Dadgomisiynu Niwclear



GWYBODAETH ALLWEDDOL

SAFLE:

Birchwood

GWERTH Y PROJECT:

£1.5m

AMSERIAD/HYD Y PROJECT:

21 mis

Trosolwg o'r project

Ar gyfer Menter Ymchwil Busnesau Bach Innovate UK, a ariennir gan yr NDA, BEIS ac Innovate UK, datblygodd Wood set o offer a ddaeth ag amrywiol dechnolegau, systemau a phrosesau ynghyd, mewn arddangosiad anweithredol, i ddadgomisiynu cyfleusterau niwclear. Datblygwyd datrysiad y project er mwyn cynhyrchu newid sylweddol o ran cyflawni dadgomisiynu. Mae Wood yn datblygu methodoleg datgomisiynu niwclear newydd gan ddefnyddio technoleg arloesol i esblygu'r broses gan gydnabod yr arferion da presennol a gofynion unigryw'r sector. Er mwyn cyflawni'r amcanion dadgomisiynu Diogelach, Cyflymach a Rhatach, nododd Wood dair thema sy'n sail i'r broses well yma.

Manylion y datrysiad/dull gweithredu

Mabwysiadwyd tair prif thema fel gweledigaeth arweiniol yn gefn i'r strategaeth ddatblygu:

Cynllunio a nodweddu mewn amser real; llai o weithio peryglus ar uchderau; a gwell rheolaeth ar y systemau robotig. Daeth Wood â chonsortium o wyth sefydliad academiaidd a busnesau bach a chanolig ynghyd sy'n tynnu ar brofiadau o'r sectorau meddygol, gofod a milwrol yn gefn i ddyfnder arbenigedd Wood mewn meysydd fel radioleg, cemeg, ffiseg, adnabod deunyddiau, ffactorau dynol a phrosesu mecanyddol,

systemaidd a pheirianyddol. Angorwyd y project ym myd dadgomisiynu fel y mae ar hyn o bryd ond aethpwyd ati i ddefnyddio arloesedd i ymchwilio i feysydd annatblygedig y gellir eu hymgorffori mewn strategaeth ddadgomisiynu newydd. Thema ganolog y system yw gweledigaeth amgen o sut y gellir defnyddio systemau o bell a chadw gweithredwyr dynol rhag amgylcheddau peryglus.